# Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

## SJR(2)-02-06(p.2)

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 25 Ionawr 2006 |
| **Amser:** | 9.30am tan 12.30pm |
| **Lleoliad:** | Cynulliad Cenedlaethol Cymru |

**Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio – Adolygiadau Polisi ar gyfer y Dyfodol**

**Diben**

1. Mae'r papur hwn yn hysbysu'r Pwyllgor am bynciau posibl i'w hystyried fel adolygiadau polisi.

**Cefndir**

2. Ers sefydlu'r Pwyllgor ym mis Mai 2003, cynhaliwyd yr adolygiadau polisi isod:

| Enw'r Adolygiad | Dyddiad cyhoeddi |
|---|---|
| Tai ar gyfer Pobl Hyn | Gorffennaf 2004 |
| Ailstrwythuro'r Heddlu | Tachwedd 2005 |
| Camddefnyddio Sylweddau - Gwasanaethau Triniaeth | I'w gyhoeddi ym mis Chwefror 2006 |

Y meysydd a awgrymwyd ar gyfer adolygiadau polisi yn y dyfodol

Y meysydd polisi penodol canlynol, a nodwyd gan y Clerc a Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau:

Digartrefedd ymhlith pobl ifanc

Adsefydlu troseddwyr

Cyfiawnder ieuenctid

Materion sy'n effeithio ar geiswyr lloches a phobl o gymunedau du a lleiafrifoedd ethnig

## Argymhelliad

3. Bod y Pwyllgor yn ystyried y pynciau a awgrymwyd fel y nodir yn yr Atodiad a chytuno ar un i graffu arno. Pan fydd y Pwyllgor wedi dewis pwnc i graffu arno, bydd Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau yn darparu rhestr o'r bobl a gaiff eu gwahodd i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor.

**Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau**
**Ionawr 2006**